# Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015

**2015 dccc 1**

## RHAN 4

MATERION ARIANNOL SEFYDLIADAU RHEOLEIDDIEDIG

*Cod rheolaeth ariannol*

### 29 Y weithdrefn os na chymeradwyir Cod drafft gan Weinidogion Cymru

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw Gweinidogion Cymru yn penderfynu peidio â chymeradwyo drafft o'r Cod cyntaf, neu o God diwygiedig, a gyflwynir iddynt o dan adran 28.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru roi hysbysiad i CCAUC ynghylch y penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

(3) Os yw Gweinidogion Cymru yn rhoi hysbysiad i CCAUC o dan is-adran (2) eu bod wedi penderfynu peidio â chymeradwyo drafft o'r Cod cyntaf, rhaid i CCAUC gyflwyno drafft pellach o'r Cod cyntaf i Weinidogion Cymru.

(4) Os yw Gweinidogion Cymru yn rhoi hysbysiad i CCAUC o dan is-adran (2) eu bod wedi penderfynu peidio â chymeradwyo drafft o God diwygiedig, rhaid i CCAUC naill ai—

(a) cyflwyno drafft pellach o'r Cod diwygiedig i Weinidogion Cymru, neu

(b) rhoi hysbysiad i Weinidogion Cymru—

(i) yn datgan bod CCAUC wedi penderfynu peidio â pharhau â'r gwaith o ddiwygio'r Cod, a

(ii) yn nodi'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

(5) Caiff hysbysiad o dan is-adran (2) bennu cyfnod y mae rhaid, cyn diwedd y cyfnod hwnnw, i CCAUC gydymffurfio ag is-adran (3) neu (4) (fel y bo'n briodol).

(6) Cyn cyflwyno drafft pellach o'r Cod cyntaf neu o God diwygiedig i Weinidogion Cymru, rhaid i CCAUC gynnal unrhyw ymgynghoriad pellach sy'n briodol yn ei farn ef.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, Adran 29 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 01 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(7) Rhaid i ddrafft pellach a gyflwynir i Weinidogion Cymru o dan yr adran hon gynnwys gydag ef adroddiad—

(a) sy'n esbonio sut y mae CCAUC, wrth lunio'r drafft, wedi ystyried y rhesymau a nodwyd yn yr hysbysiad a roddwyd gan Weinidogion Cymru o dan is-adran (2),

(b) sy'n nodi rhesymau CCAUC dros delerau'r drafft, ac

(c) sy'n rhoi manylion unrhyw ymgynghoriad a gynhaliwyd o dan is-adran (6) mewn perthynas â'r drafft ac yn crynhoi'r sylwadau a gafodd CCAUC yn ystod yr ymgynghoriad.

(8) Mae is-adrannau (2) i (7) yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru yn penderfynu peidio â chymeradwyo drafft a gyflwynir iddynt o dan yr adran hon fel y maent yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru yn penderfynu peidio â chymeradwyo drafft a gyflwynir iddynt o dan adran 28.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 29 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 59(2)**

**I2** A. 29 mewn grym ar 1.9.2015 gan O.S. 2015/1327, **ergl. 5(i)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, Adran 29 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 01 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**

– Act repealed by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 31